O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1165 (Cy. 203)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cilfan yn Llanfarian, Ceredigion) (Traffig Unffordd) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Hydref 2023* |
| *Yn dod i rym* | *2 Tachwedd 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cilfan yn Llanfarian, Ceredigion) (Traffig Unffordd) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Tachwedd 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cilfan" ("*lay-by*") yw unrhyw ran o'r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau ar un

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

o ymylon y gefnffordd a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o'r math a welir yn niagram 1010 o Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016(**1**);

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gogledd ar y darn cyfan o gilfan y gefnffordd sy'n dechrau wrth y gyffordd â Penffordd Road ac sy'n gorffen wrth gyffordd y ffordd fynediad i'r Ystâd Dai yn Llanfarian, Ceredigion.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 31 Hydref 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 2016/362.